Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1206 (Cy. 195)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (ardrethu annomestig: cronni), mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (sef, yng Nghymru, gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hyn ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion) yn lle'r un bresennol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 1206 (Cy. 195)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Tachwedd 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *20 Tachwedd 2025* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan baragraff 4(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**).

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2025.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â blwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny.

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd paragraff 4(1) o Atodlen 8 gan baragraff 6(2) o Atodlen 10 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) a pharagraff 7(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992**

**2.** Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**) (ffigurau poblogaeth oedolion) rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
18 Tachwedd 2025

(**1**) O.S. 1992/3238; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1993/3077, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy. 47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy. 322), 2002/3054 (Cy. 289), 2003/3211 (Cy. 304), 2004/3232 (Cy. 280), 2005/3345 (Cy. 259), 2006/3347 (Cy. 307), 2007/3343 (Cy. 295), 2008/2929 (Cy. 258), 2009/3147 (Cy. 274), 2010/2889 (Cy. 239), 2011/2610 (Cy. 283), 2012/3036 (Cy. 310), 2013/3046 (Cy. 305), 2014/3193 (Cy. 323), 2015/1905 (Cy. 277), 2016/1169 (Cy. 286), 2017/1159 (Cy. 287), 2018/1196 (Cy. 244), 2019/1399 (Cy. 246), 2020/1366 (Cy. 302), 2021/1333 (Cy. 344), 2022/1214 (Cy. 251), 2023/1292 (Cy. 299) a 2024/1142 (Cy. 191).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN Rheoliad 2

## “SCHEDULE 4 Regulation 6(5)

## ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,427 |
| Bridgend/Pen-y-bont ar Ogwr | 118,745 |
| Caerphilly/Caerffili | 141,048 |
| Cardiff/Caerdydd | 308,167 |
| Carmarthenshire/Sir Gaerfyrddin | 154,363 |
| Ceredigion | 61,203 |
| Conwy | 94,543 |
| Denbighshire/Sir Ddinbych | 78,799 |
| Flintshire/Sir y Fflint | 125,121 |
| Gwynedd | 99,195 |
| Isle of Anglesey/Ynys Môn | 56,170 |
| Merthyr Tydfil/Merthyr Tudful | 46,421 |
| Monmouthshire/Sir Fynwy | 77,847 |
| Neath Port Talbot/Castell-nedd Port Talbot | 115,426 |
| Newport/Casnewydd | 129,773 |
| Pembrokeshire/Sir Benfro | 102,432 |
| Powys | 111,753 |
| Rhondda Cynon Taf | 194,146 |
| Swansea/Abertawe | 203,465 |
| Torfaen | 74,710 |
| Vale of Glamorgan/Bro Morgannwg | 107,571 |
| Wrexham/Wrecsam | 110,237” |